# Canllawiau cyfathrebu am ddad-drefedigaethu



Museums Association

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Cyflwyniad | 03 |
| 02 | Datblygu'ch strategaeth | 05 |
| 03 | Deall cynulleidfaoedd | 12 |
| 04 | Cyfathrebu allanol | 16 |
| 05 | Taflenni gwaith ar ymgysylltu cynhyrchiol | 18 |

# Cyflwyniad

# 01



Llun, diolch i: © Amgueddfeydd Prifysgol Caergrawnt

# Cyflwyniad



**Mae gan gyfathrebu ran allweddol i'w chwarae yng ngwaith dad-drefedigaethu unrhyw amgueddfa. Gall strategaeth gyfathrebu gryf eich gwarchod rhag risg a'ch helpu i ddatblygu brand cryfach.**

**Bwriad y canllawiau hyn yw bod yn fan cychwyn ar gyfer adeiladu strategaeth gyfathrebu gadarn i gefnogi'ch gwaith. Nid oes un ateb sy'n addas i bawb achos mae'r sector amgueddfeydd yn amrywiol o ran capasiti, maint a thactegau. Cymerwch yr hyn sy'n gweithio i chi, a'r hyn sy'n bosibl i'ch sefydliad, a gwneud y gorau ohono. Po fwyaf y cydweithiwn ar y gwaith hwn, cryfaf fydd y gwaith a hawsaf y bydd ei wneud y tro nesaf.**

## Moeseg

Mae Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn adnodd defnyddiol i helpu i sicrhau derbyniad i'r syniadau hyn yn fewnol ac yn allanol. Mae gwaith dad-drefedigaethu yn rhan bwysig o waith ymgysylltu ystyrlon â'r cyhoedd a sicrhau budd y cyhoedd — mae gofyn gwneud safiad moesegol cryf fel rhan o'ch strategaeth. Bydd **'Canllawiau** Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu yn adnodd defnyddiol ar gyfer y gwaith hwn. Mae amgueddfeydd mewn sefyllfa bwysig sy'n gofyn am ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, cymunedau lleol, cyfranwyr, cymunedau ffynhonnell, sefydliadau partner, noddwyr a chyllidwyr ac mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau moesegol cadarn ym mhob rhan o'n gwaith er mwyn cynnal yr ymddiriedaeth hon.

## Hunansensoriaeth

Mae hunansensoriaeth yn debygol o chwarae rhan wrth benderfynu ar eich strategaeth gyfathrebu. Mae'r reddf i amddiffyn y sefydliad rhag ymateb gwrthwynebus neu sylw negyddol yn y cyfryngau yn naturiol ond mae'n rhaid gwrthsefyll y petruster hwn a gweithredu. Cofiwch, rhaid inni fod yn ddewr yn y gwaith hwn. Rhaid bod yn barod i herio normau ac annog cymryd risgiau yn eich sefydliad. Weithiau, efallai na fydd gweithredu'n foesegol yn cyfateb i safonau 'arferion gorau' traddodiadol. Mae caniatáu i hunansensoriaeth fod yn modus-operandi amgueddfa yn golygu tanseilio dyletswydd amgueddfeydd i herio cynulleidfaoedd â safbwyntiau newydd a gwahanol. Wrth ymgymryd â phrosiect dad-drefedigaethu, dylech fod yn barod i deimlo'n anghysurus weithiau ond gwnewch hynny gan wybod bod y gwaith yn hanfodol. Serch hynny, rydym yn sylweddoli y bydd cyfyngiadau ar rai sefydliadau oherwydd sensoriaeth gan y corff llywodraethol neu'r sefydliad.

# Datblygu'ch strategaeth

# 02



Cynrychiolwyr pobl y Maasai yn cydweithio ag Amgueddfa Pitt Rivers i ofalu am eitemau sydd o bwys ysbrydol iddynt. © Amgueddfa Pitt Rivers, Prifysgol Rhydychen, John Cairns

# Datblygu'ch strategaeth



**Mae buddsoddi amser mewn sefydlu strategaeth gyfathrebu yn golygu bod gennych gyfle i dreialu'ch negeseuon a'ch iaith yn fewnol cyn mynd yn fyw. Os oes gan eich sefydliad dîm cyfathrebu, dylech eu cynnwys yn fuan. Bydd yn golygu bod y lansiad yn well o lawer.**

## Pennu amcanion

Mae pennu amcanion clir a chyraeddadwy yn rhan hanfodol o ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer eich gwaith dad-drefedigaethu. Mae gwybod beth sy'n bosibl a chael cefnogaeth fewnol yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cyfathrebu mewnol esmwythach a phroses benderfynu symlach.

Gall fod gan rai prosiectau amcanion clir sy'n arwain at gynlluniau cyfathrebu ymarferol o'r dechrau'n deg. Er enghraifft:

– Gwella'r ddealltwriaeth o darddiad ein casgliadau

– Sicrhau mwy o ymgysylltu ystyrlon â chymunedau

– Codi ymwybyddiaeth o ymdrechion i ddychwelyd eitemau i'w tarddiad

Fodd bynnag, os nad yw'ch amcanion yn glir yn syth, ystyriwch y cwestiynau isod:

– Ble mae'r prosiect hwn yn ffitio yn strategaeth ehangach y sefydliad?

– Ar gyfer pwy mae'r prosiect?

– Sut mae'r cynllun cyfathrebu hwn yn cyfrannu at adrodd straeon am y sefydliad yn yr hirdymor?

– Pa fetrigau sy'n golygu rhywbeth i'ch sefydliad? Sut allwch chi gynnwys y rheini yn eich amcanion er mwyn sicrhau ymrwymiad yn y dyfodol?

– Sut hoffem ni i'n cynulleidfaoedd ymddwyn/ deimlo ar ôl ymwneud â'r prosiect?

Bydd yr amcanion hyn yn sylfaen ar gyfer gweddill eich gwaith cyfathrebu. Felly, gofalwch eu bod yn ysbrydoli a/neu'n herio eich tîm. Dylent deimlo'n bendant, ond nid yn gaethiwus.

# Datblygu'ch strategaeth



## Astudiaeth achos:

## Beth i'w wneud am Thomas Picton? | Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru a **Rhwydwaith Arweinwyr Ifanc y Panel Cynghori Is-Sahara (SSAP)** wedi bod yn gweithio ar brosiect i ail-fframio'r naratif trefedigaethol ynghylch y portread o'r Is-gadfridog Thomas Picton. Mae Picton yn ffigwr dadleuol a fu'n cael ei gyfrif yn arwr cyhoeddus, ond sydd heddiw yr un mor enwog am gam-drin pobl Dduon – pobl wedi'u caethiwo a phobl rydd, ac am ganiatáu arteithio pan oedd yn llywodraethwr Trinidad.

Cychwynnwyd y prosiect ar ffurf gweithdy a thrafodaeth rhwng rhai o'r bobl ifanc fel rhan o **Hands on Heritage**, rhaglen a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc.

Cytunwyd i dynnu'r portread o'r oriel a chomisiynu dau artist, Gesiye a LakuNeg, i greu gweithiau celf mewn ymateb iddo. Caiff y rhain eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd o fis Awst 2022 ymlaen.

Rhoddwyd y gwaith ar **wefan** yr amgueddfa a chyhoeddwyd **datganiad i'r wasg**.

Cafwyd rhai heriau o ganlyniad i ymatebion gwrthwynebus i beth o'r gwaith cyfathrebu, er enghraifft, sylwadau o dan **flog** am y drafodaeth gychwynnol. Ar Twitter roedd hyn yn bennaf, gan olygu bod angen i staff gymedroli'r negeseuon mwyaf eithafol a llunio ymatebion parod.

Cafwyd rhai canlyniadau cadarnhaol oherwydd yr angen i ddelio â'r materion hyn. Penderfynwyd cynnal hyfforddiant i'r staff ar ymddygiad annerbyniol a rhoddwyd cefnogaeth i'r bobl ifanc ym maes diogelu a llesiant. Diweddarwyd polisi cyfryngau cymdeithasol yr amgueddfa a gwnaed penderfyniad gan y sefydliad i lynu wrth y cynllun i ailddehongli'r portread. Cafodd yr amgueddfa lawer o gefnogaeth i'w safiad hefyd ac roedd y bobl ifanc a'r cymunedau dan sylw'n gwerthfawrogi'r safiad cryf hwnnw.



# Datblygu'ch strategaeth



Mae'r gwaith ar Picton yn rhan o gynllun llawer mwy i ddad-drefedigaethu casgliadau yn Amgueddfa Cymru (amgueddfa.cymru) a lluniwyd Siarter i gefnogi'r gwaith. Mae hon yn ddyfais fuddiol ar gyfer mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch rhesymau'r amgueddfa dros wneud y fath waith yn y dyfodol.

"I spent some few years the UK, many years past now. As an American, I was fascinated by all the local and national history surrounding me seemingly at every turn, and how much effort had gone into preserving and sharing that history with the public. So, to see this sort of article, where the only effort is to now tear down that history to push a radical multiculti, globalist agenda, sickens me.

Sylw a adawyd ar flog, Mawrth 2022

"Thank you for writing to Amgueddfa Cymru concerning the article 'Decolonising Amgueddfa Cymru's Collection – the journey begins'. The intention of decolonisation is not to erase history, or the history of the object, but to work collaboratively with communities to develop multiple perspectives to support a better understanding and deeper meaning. Decolonising the collection will mean that we have more information about objects, not less. We will be able to present a more balanced, authentic and decolonised account of history.

Ymateb y tîm cyfathrebu i'r sylw a adawyd ar y blog, Mawrth 2022

# Datblygu'ch strategaeth

## Deall faint y gallwch ei wneud

Mae lefelau'r adnoddau cyfathrebu a'r seilwaith mewnol sydd gan sefydliadau i wneud y gwaith hwn yn amrywio. Peidiwch â theimlo o dan bwysau i ymddwyn fel sefydliad sy'n fwy o faint ac sydd â mwy o adnoddau na chi. Yn yr un modd, os ydych yn gweithio mewn sefydliad mawr, gallwch estyn allan i adrannau eraill i feithrin eu gallu i ymgymryd â'r prosiect. Gall eich maint fod yn gryfder i chi, boed fawr neu fach.

Ewch y tu hwnt i'ch adran chi i ddarganfod pwy sydd â gwir ddiddordeb yn y gwaith. Os oes modd, ewch ati i'w cynnwys yn y broses benderfynu a chyflawni er mwyn rhannu'r gwaith ar draws y sefydliad. Dylech ymddiried yn y rhai sy'n gwneud y gwaith i'w wneud yn dda ond ceisiwch gefnogaeth trwy'r sefydliad cyfan.

## Pontio gwerthoedd craidd a brand eich sefydliad

Mae'n hanfodol cysylltu gwaith cyfathrebu'ch prosiect chi â gwerthoedd ac egwyddorion craidd y sefydliad. Trwy gysylltu prosiect neu waith dad-drefedigaethu â'ch nodau strategol hirdymor, rydych yn creu sylfaen gadarnach ar gyfer eich negeseuon ac yn eich gwarchod eich hunan rhag beirniadaeth. Mae deall y berthynas uniongyrchol rhwng eich prosiect a'r strategaeth hirdymor yn helpu'ch tîm i adeiladu system negeseuon hyblyg ar gyfer eich prosiect.

"

**It's about trying to make it more inclusive. Telling different stories that could have been told in the past but weren't.**

Fiona Salvesen Murrell, Paxon House

# Datblygu'ch strategaeth

## Astudiaeth Achos:

## "Treatment of Dead Enemies" – Amgueddfa Pitt Rivers


Rhwng 2017 a 2020, cynhaliodd Amgueddfa Pitt Rivers adolygiad moesegol o'i chasgliadau a'i harddangosfeydd, yn cynnwys arferion amgueddfaol newydd ac ymchwil i'r gynulleidfa. Tra bu'r amgueddfa ynghau yn ystod y pandemig, cafodd 120 o weddillion dynol – yn cynnwys y Shuar Tsantsas, casgliad yr amgueddfa o 'bennau wedi crebachu', a fu'n cael eu harddangos mewn cas o'r enw "Treatment of Dead Enemies", eu symud o'r orielau cyn yr ailagor ym mis Medi 2020.

Fel rhan o'i gwaith cyswllt â'r cyfryngau, bu'r amgueddfa'n cydweithio â dau newyddiadurwr uchel eu parch i roi erthyglau nodwedd yn y papurau cenedlaethol safonol. Yn gyfnewid am fynediad llawn at ddelweddau a llefaryddion, roedd yr erthyglau'n cynnig adroddiadau cywir, cydymdeimladol a manwl a buont yn hwb i sylw safonol yn y cyfryngau ehangach. Rhoddwyd sylw i'r stori mewn 300 o lefydd yn cynnwys y prif ddarlledwyr, y BBC, Sky, Fox News a CNN; a chafodd ei syndicetio ledled y byd gan y Press Association. Yn y wasg leol y cafwyd y feirniadaeth fwyaf, gan resynu bod y 'pennau crebachlyd' wedi'u colli o'r dreftadaeth leol; ond roedd rhan fwyaf o bell ffordd o'r sylw ehangach yn gadarnhaol neu'n niwtral.

Roedd y staff yn awyddus i fod yn dryloyw ac yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ei sianeli ei hun. Yn dilyn y cyhoeddiad, cafodd dros 12,000 o eiriau eu cyfnewid gan ddilynwyr ar Twitter a Facebook, o blaid ac yn erbyn dad-drefedigaethu. Er bod ymatebion cychwynnol yn y cyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth yn negyddol, ymhen amser daeth sylwadau ar bostiadau'r amgueddfa'n fwyfwy cadarnhaol, tuedd a barhaodd tan ddiwedd 2020 ar ôl i Pitt Rivers ailagor.

Bu'r amgueddfa'n defnyddio'i sianeli i hwyluso trafodaeth, weithiau trwy wneud dim ond postio dolenni i wybodaeth am ddad-drefedigaethu a'r gwaith oedd yn sail i'r adolygiad moesegol. Trwy hyn, lliniarwyd y feirniadaeth a dangos bod gan yr amgueddfa agwedd agored a'i bod yn barod i dderbyn gwahanol safbwyntiau.

Roedd yr adolygiad moesegol yn brosiect cymhleth ac emosiynol ac roedd cyfathrebu'n hanfodol er mwyn sicrhau derbyniad da iddo. Defnyddiodd y tîm gyfryngau traddodiadol amlwg i gyfleu negeseuon allweddol; a'i sianeli ei hunan i gynnig gwybodaeth ac i drafod. Helpodd hyn i gynnal proffil cyhoeddus yr amgueddfa ac mae wedi sicrhau bod Pitt Rivers yn sefydliad sy'n arwain y sector ym maes dad-drefedigaethu.




Paneli dehongli'n esbonio pam y tynnwyd y Shuar Tsantsas (pennau wedi crebachu o ddiwylliant pobl Shuar) o arddangosfa Amgueddfa Pitt Rivers © Amgueddfa Pitt Rivers

Cynnwys ←

# Datblygu'ch strategaeth

## Ysgrifennu negeseuon allweddol

Bydd datblygu negeseuon allweddol syml, cofiadwy yn eich helpu i gyflawni'ch amcanion a goresgyn unrhyw amrywiadau mewn capasiti. Byddant yn eich helpu hefyd i reoli'r sylw a roddir i'r mater yn y cyfryngau a rhan eich sefydliad chi yn y stori.

Yn unol ag egwyddorion Cymdeithas yr Amgueddfeydd ynghylch dad-drefedigaethu amgueddfeydd, mae'n arbennig o bwysig cydnabod eich grym a'ch braint wrth fynd ati i gynllunio. Peidiwch â gorbwysleisio effaith bosibl y prosiect na'i bwysigrwydd i'r sefydliad – gwnewch y gwir yn hawdd i'w ddeall. Ystyriwch pwy rydych yn canolbwyntio arnynt wrth adrodd eich straeon a phwy rydych yn eu gadael allan. Mae llawer o sefydliadau o blaid gwneud y gwaith hwn yn uniongyrchol gydag aelodau o gymunedau yr effeithir arnynt. Os ydych chi'n cydweithio â phartneriaid, gadewch iddyn nhw ddylanwadu ar y strategaeth negeseuon a chyfathrebu a chyfrannu ati.

> "We have to be so respectful and that's a key part of decolonisation and repatriation work. Maintaining respect and a dialogue.
>
> Eimear Cassidy, Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon

Yn y fan hon, mae hefyd yn fuddiol ystyried pa fath benodol o iaith yr ydych am ei defnyddio i siarad am y prosiectau. Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd yr iaith y buoch yn ei defnyddio'n fewnol yn briodol yn allanol nac fel arall. I gael rhagor o help i lunio'ch negeseuon, rhowch gynnig ar yr ymarfer Creu Naratif am Effaith Gyffredin ar ddiwedd y ddogfen hon.



Prosiect Connecting with Yemeni Elders Heritage yn House of Memories, © Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (NML), Robin Clewley

# Deall cynulleidfaoedd

03



Prosiect Connecting with Yemeni Elders Heritage yn House of Memories, © Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (NML), Gareth Jones

# Deall cynulleidfaoedd



**Bydd y ffordd y penderfynwch ymgysylltu â'ch cynulleidfaoedd yn pennu i raddau helaeth sut y rhoddir eich strategaeth ar waith. Er bod rhai sefydliadau'n gweld bod cyfathrebu trwy 'gyhoeddi' yn effeithiol (peidio ag ymgysylltu na gwneud sylwadau ar ôl y negeseuon cychwynnol), canfu eraill bod ymgysylltu yn ffordd gynhyrchiol o feithrin cefnogaeth i brosiect neu ffordd o weithio.**



Ymwelwyr yn y Museum of Free Derry © Museum of Free Derry

# Deall cynulleidfaoedd



Wrth i chi benderfynu ar eich cynllun, ystyriwch pwy y gallech gyrraedd atynt o fewn y categorïau hyn.

## Cefnogwyr Gweithredol/Goddefol

Mae'n debygol y bydd y gynulleidfa hon yn ymwneud â gwaith cyfiawnder cymdeithasol ac yn cefnogi'r prosiect yn gyffredinol.

### Gwnewch:

Eu hannog i gymryd rhan a rhoi rhagor o gyfleoedd iddynt i gefnogi'r prosiect.

### Peidiwch:

Tynnu sylw atynt yn ddiddiwedd (er enghraifft, trwy aildrydar neu rannu negeseuon) rhag ofn i chi gynddeiriogi mwy ar eich beirniaid gweithredol.

## Beirniaid Goddefol/Niwtral Chwilfrydig

Bydd gan y cynulleidfaoedd hyn rai pryderon am y prosiect ond ni fyddant yn gwrthwynebu nac yn ymosod yn syth. Mae cyfle amlwg i ymgysylltu â'r gynulleidfa hon, i ddangos eich bod yn gwrando ac i gydnabod eu hanghenion a'u hofnau.

### Gwnewch:

Egluro unrhyw gamsyniadau didwyll sydd ganddynt a meithrin perthynas.

### Peidiwch:

Eu cynddeiriogi na'u cythruddo i ymateb yn fwy gwrthwynebus.

## Beirniaid Gweithredol

Mae'r gynulleidfa hon yn debygol o wrthwynebu'n gryfach ond yn barchus. Efallai na fydd modd eu hargyhoeddi na'u tawelu ond, er hynny, gallwn ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eu diddordeb yn y prosiect. Dylem fod yn barod i bobl graffu ar yr hyn a wnawn.

### Gwnewch:

Cydnabod eu hymateb a'u sylwadau yn ddidwyll neu os oes gennych ymateb clir, ystyriwch ymateb yn anuniongyrchol trwy neges newydd.

### Peidiwch:

Rhoi targedau hawdd iddynt na'u cythruddo i weithredu.

## Beirniaid Maleisus

Nid oes gan y gynulleidfa hon, y 'troliaid', ddiddordeb mewn sgyrsiau diffuant am y prosiect. Mae'n debygol mai dealltwriaeth arwynebol sydd ganddynt o'r amcanion a byddant yn ymateb i eiriau allweddol neu sylw ymfflamychol yn y cyfryngau. Maent hefyd yn debygol o ddefnyddio iaith hiliol neu ragfarnllyd.

### Gwnewch:

Cadw golwg am eiriau neu ymadroddion sy'n ennyn gwrthdaro, a'u hosgoi. Cuddiwch negeseuon hiliol ac eithafol os oes modd.

### Peidiwch:

Ymateb na thynnu sylw atynt.

# Deall cynulleidfaoedd



## Cyfathrebu mewnol

Mae rhannu ac egluro'r prosiect ar draws y sefydliad yn ffordd wych o gael cefnogaeth eang ac mae'n fan cychwyn ardderchog ar gyfer eich negeseuon allweddol. Yn dibynnu pa mor fawr yw'ch prosiect, efallai y bydd rhywfaint o ddryswch ymhlith rheolwyr a staff eraill ynglŷn â'ch amcanion a'ch cymhellion. Defnyddiwch y cyfle hwn i ganfod unrhyw fylchau yn eich strategaeth.

## Addasu'ch negeseuon allweddol

Mae cynulleidfaoedd mewnol yn cofio llawer mwy am y sefydliad na'r cyhoedd. Defnyddiwch hyn er mantais i chi trwy addasu'ch negeseuon allweddol i'w hatgoffa o werthoedd ac arferion sydd gennych yn gyffredin. Cofiwch y bydd gan staff, rheolwyr a gwirfoddolwyr ddehongliadau gwahanol o bwysigrwydd y prosiect. Os oes modd, ceisiwch gwrdd â nhw yn y man lle maent er mwyn deall unrhyw bryderon neu gamddealltwriaeth.

## Meithrin cydberchnogaeth

Ystyriwch greu briff un dudalen sy'n cynnwys y wybodaeth hanfodol am y prosiect a'i effaith ar y straeon rydych chi'n eu hadrodd. Soniwch am y bobl, y straeon neu'r gwrthrychau allweddol y dylai'r timau mewnol wybod amdanynt. Rhowch ofod a chyfle i'r staff dreulio a deall yr amcanion a'r cysylltiadau ag egwyddorion a gwerthoedd craidd eich sefydliad.

> "You should give members of staff for whom comms and social media isn't their central role, confidence and guidelines for how to talk about this work in a positive and engaging way.
>
> Esther Morgan, Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk

## Rhoi cyfle i ymateb a chyfrannu

Cadwch lwybr cyfathrebu'n agored ar gyfer ymateb a thrafod. Gallai ymatebion mewnol roi syniad i chi sut y bydd y cyhoedd yn ymateb yn y dyfodol. Felly defnyddiwch y trafodaethau hyn fel cyfleoedd i ddysgu.

Cynhaliwch sgyrsiau agored gyda beirniaid mewnol er mwyn ceisio deall gwreiddiau eu pryderon. Yn aml, gellir datrys honiadau o 'orsensitifrwydd' ac 'agendâu woke' trwy drafod ffeithiau'r prosiect. Dewch yn ôl bob amser at negeseuon a themâu allweddol y prosiect. Gofalwch eich bod yn cael ymateb eang. Efallai y bydd rhai'n uchel eu cloch ond mae'n bwysig ymgysylltu â beirniaid tawelach hefyd.

Gallech wynebu heriau oddi wrth gydweithwyr sy'n awyddus i'r sefydliad fod yn fwy eofn neu ddi-flewyn-ar-dafod hefyd. Cofiwch mai proses yw gwaith dad-drefedigaethu ac y bydd rhagor o gyfleoedd bob amser i gymryd rhan yn y gwaith. Gwrandewch ar eu pryderon a chanfod cyfleoedd iddynt chwarae rhan fwy ystyrlon yn y prosiect (os oes modd). Cofiwch – mae'r gwaith hwn ar y gweill a bydd yn para'n hir.

# Cyfathrebu allanol

# 04



Cynrychiolwyr pobl y Maasai yn cydweithio ag Amgueddfa Pitt Rivers i ofalu am eitemau sydd o bwys ysbrydol iddynt. © Amgueddfa Pitt Rivers, Prifysgol Rhydychen, John Cairns

# Cyfathrebu allanol

**Erbyn i chi hysbysu'r cyhoedd am eich prosiect, dylech fod yn gwybod beth yw'ch amcanion a'ch negeseuon allweddol. Trwy bennu'r strategaeth honno ymlaen llaw, bydd yn haws addasu'ch negeseuon i gynulleidfaoedd allanol a'u cysoni â'r cynlluniau cyfathrebu presennol.**

Wrth hysbysu'r cyhoedd am eich cynlluniau dad-drefedigaethu, dylech ystyried yn ofalus pa sianeli rydych am ganolbwyntio arnynt a pha leisiau rydych am eu pwysleisio. Os nad oes gennych lawer o adnoddau ar gyfer ymgysylltu â phobl, efallai y byddai'n well canolbwyntio ar sianeli fel blog neu wefan yn hytrach na'r cyfryngau cymdeithasol sy'n gofyn am fwy o adnoddau.

Mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn teimlo'n rhan o waith cyfathrebu ehangach y sefydliad. Os byddwn yn ynysu'r gwaith, a'r gwaith cyfathrebu ar ei gyfer, byddwn yn tanseilio hyder y cyhoedd a'r sector ynddo fel cynllun ystyrlon ar gyfer y sefydliad (nid prosiect tymor byr yn unig). Mae angen i ni ddangos nad gweithred symbolaidd yw hyn, yn enwedig wrth gydweithio â chymunedau lleol neu ddiaspora. Mae hyn hefyd yn gwarchod y sefydliad rhag beirniadaeth mai 'dilyn y ffasiwn' neu ymateb i 'leiafrifoedd woke' y mae'n ei wneud.

## Nodyn am y gair 'dad-drefedigaethu':

Rydym yn sylweddoli bod llawer o sefydliadau'n cael trafferth â'r gair dad-drefedigaethu (decolonisation). Mae gwaith dad-drefedigaethu amgueddfeydd yn golygu mynd ati mewn ffordd greadigol i ailddychmygu'r ffordd y mae amgueddfeydd yn gweithio, gyda phwy y maent yn gweithio a'r hyn sy'n werthfawr iddynt. Dyna beth sy'n bwysig. Os oes pwysau arnoch i ddefnyddio geiriau gwahanol ar gyfer eich prosiect, mae hynny'n iawn. Defnyddiwch yr iaith sy'n eich galluogi i wneud y gwaith.

## Ymgysylltu â'r cyfryngau

Wrth bennu'ch strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyfryngau dylech ddechrau â'ch capasiti. Os nad oes gennych swyddog y wasg neu dîm cyfryngau mewnol, ystyriwch gael cymorth allanol ar gyfer datganiadau i'r wasg, ceisiadau gan y cyfryngau, a chanllawiau i lefarwyr. Dylid cynnwys y cymorth hwn yng nghyllideb y prosiect ar y dechrau os oes modd.

Os oes gennych dîm mewnol, dylech gwrdd â nhw yn fuan yn y broses i asesu effaith bosibl eich prosiect. Mae llawer o ymdrechion i ddad-drefedigaethu yn destun beirniadaeth lem yn y cyfryngau felly mae'n hanfodol paratoi. Byddwch yn barod i newyddiadurwyr ddod â'u hongl eu hunain.

Mae ymgysylltu â'r cyfryngau, yn enwedig y cyfryngau darlledu, yn grefft. Er mwyn canfod y lleisiau cywir yn eich sefydliad, mae angen ymddiriedaeth, hyder a bod yn gyfforddus â nhw. Yn ddelfrydol, bydd gennych rywun a fu'n ymwneud yn ystyrlon â'r prosiect fel llais cyhoeddus allweddol, ond os nad oes, gofalwch uwchsgilio pwy bynnag fydd yn




Paneli dehongli yn Amgueddfa Pitt Rivers © Amgueddfa Pitt Rivers

# Cyfathrebu allanol



ymdrin â cheisiadau'r cyfryngau a marchnata ynghylch goblygiadau'r prosiect o ran polisi a'r casgliadau. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gan yr uwch-arweinwyr a/neu ymddiriedolwyr lais yn eich gwaith cyfathrebu. Dylai arweinwyr y sefydliad fod yn barod i gymryd rhan os yw'r prosiect yn sbarduno dadl neu sgwrs gyhoeddus.

## Ymateb i negyddiaeth ac anghydfod

Gwrandewch ar y feirniadaeth a chaniatáu i hynny lywio'ch gwaith cyfathrebu yn anuniongyrchol/awgrymedig. Lle bo modd, cyfeiriwch at waith a wnaed eisoes i ddangos ymrwymiad hirdymor i waith eich sefydliad ym maes dad-drefedigaethu.

Mae gwaith ymchwil (dolenni isod) yn dangos bod sylwebyddion yn aml yn defnyddio'r un tactegau maleisus i darfu ar waith ymgysylltu cynhyrchiol â'r materion hyn. Yn eu plith mae:

- **Gor-ddweud:** Ystumio ffeithiau stori ddiniwed er mwyn cael llawer o sylw yn y cyfryngau
- **Ffugio:** Creu gwrthdaro trwy ffugio stori sy'n cyfrannu at y naratif o'u dewis nhw
- **Troi'r sylw:** Symud y drafodaeth o'r pwnc dan sylw i weithred neu ddigwyddiad sy'n ddibwys gan orsymleiddio'r mater

Allwch chi ddim rhagweld pob cwyn ond mae gwrthwynebiadau i'r gwaith a wneir fel rhan o'r broses ddad-drefedigaethu yn eithaf cyffredin. Gofalwch eich bod yn barod i leddfu'r ddadl, anwybyddu'r gwrthwynebiadau, neu newid pwyslais eich negeseuon mewn ymateb i'r drafodaeth ar y pryd.

Os hoffech ragor o help â hyn, trowch at ein Rhestr gyfeirio 5 pwynt ar wrthdaro ar ddiwedd y canllawiau hyn.

Adnoddau ychwanegol:

NEON_Divide&Rule.pdf

Museum Best Practices for Managing Controversy - National Coalition Against Censorship



Cynhyrchwyr cymunedol yn y National Football Museum © MIC Media

# Taflenni gwaith ar ymgysylltu cynhyrchiol

# 05



Mangubadijarri Yanner (Gangalidda) ac Esme Ward (Cyfarwyddwr, Amgueddfa Manceinion) wrth i 18 o eitemau ac iddynt arwyddocâd diwylliannol gael eu trosglwyddo'n swyddogol i Genhedloedd Gangalidda a Nyamal, Australia House, 2019, David Tett

# Taflenni gwaith ar ymgysylltu cynhyrchiol



## Rhestr gyfeirio 5 pwynt ar wrthdaro:

### 01. Ydych chi'n deall y gwrthdaro neu'r feirniadaeth yn iawn?

✓ **Ydw.** Ewch ymlaen i asesu'r sefyllfa a pharatoi cynllun gweithredu.

✗ **Nac ydw.** Rhannwch y sylw neu'r cwestiwn ag aelod o'r tîm er mwyn ceisio deall yn well cyn gweithredu. Gofalwch eich bod yn gwybod y ffeithiau a'r cyd-destun ehangach – pwy yw'r person, beth allai ei gymhelliad fod, a pherthynas y gwrthdaro hwn â chynllun cyfathrebu ehangach y prosiect.

### 02. A allai enw da neu ddiogelwch y sefydliad gael eu peryglu pe baech yn cymryd rhan yn y gwrthdaro hwn?

✓ **Gallai.** Gofalwch fod gennych gefnogaeth rhanddeiliaid mewnol a rheolwyr llinell cyn gweithredu.

✗ **Na allai.** Daliwch ati i asesu'r sefyllfa.

### 03. A yw asgwrn y gynnen yn rhywbeth sy'n cael ei drafod yn eang?

✓ **Ydi.** Ystyriwch pam y mae hynny. A yw'n amlwg pwy sy'n ysgogi'r feirniadaeth neu a oes cymhelliad clir? Gadewch i hynny lywio'ch ymateb.

✗ **Nac ydi.** Ystyriwch beidio ag ymateb.

### 04. A ellir ateb y cwestiwn fel rhan o'n cynllun cyfathrebu neu'n negeseuon allweddol ni?

✓ **Gellir.** Gwnewch yn siŵr ai mai ymgysylltu yw'r ymateb cywir a rhannwch neges allweddol.

✗ **Na ellir.** Gwnewch yn siŵr ai mai ymgysylltu yw'r ymateb cywir a defnyddiwch dechnegau pontio i gyrraedd neges allweddol.

### 05. A oes gan y person sy'n ysgogi'r gwrthdaro rym neu ddylanwad dros eraill?

✓ **Oes.** Aseswch y sefyllfa ac ystyried ymgysylltu er mwyn lleddfu'r gwrthdaro. Ceisiwch ganfod a oes gan y person/grŵp hwn hanes o ysgogi gwrthdaro mewn sefydliadau. Troediwch yn ofalus.


✗ **Nac oes**. Ystyriwch beidio ag ymateb.

# Taflenni gwaith ar ymgysylltu cynhyrchiol

## Creu naratif am effaith gyffredin

Mae cyfathrebu am eich gwaith dad-drefedigaethu yn golygu mwy nag amlinellu prosiect. Mae'n golygu dangos eich gwaith, bod yn atebol am ei oblygiadau o ran polisi, a chroesawu sgyrsiau newydd, heriol am eich sefydliad a'ch casgliadau.

Pan fyddwch yn llunio'ch negeseuon allweddol, ceisiwch ystyried effaith eich prosiect gan ddefnyddio'r fframwaith gyferbyn:




**Sefydliadol** — canolbwyntio ar effaith uniongyrchol y gwaith hwn

Beth sy'n werthfawr i ni fel sefydliad? Beth mae'r prosiect hwn yn ei olygu i ni fel sefydliad? Sut mae'r gwaith hwn yn cadarnhau ein gwerthoedd a'n hethos? A oes gwrthdaro amlwg rhwng y prosiect hwn a'n gwaith yn y gorffennol neu ein gwaith presennol? A ydym ni wedi cydnabod hynny?

**Cyfunol** — cydweithio â'n cymheiriaid

Beth sy'n werthfawr i'r sector amgueddfeydd? Pa sgyrsiau rydym yn eu cael yn y sector a allai hybu negeseuon ein prosiect? Ydych chi wedi ymgynghori ag unrhyw gymunedau ffynhonnell perthnasol ac wedi cytuno sut y byddwch yn cyfathrebu? Sut y gallwn ni annog y gymuned amgueddfeydd i gefnogi'r prosiect hwn?

**Diwylliannol** — canfod tir cyffredin gyda chynulleidfaoedd ehangach

Beth sy'n werthfawr mewn diwylliant ar hyn o bryd? Sut mae hynny'n berthnasol i'n prosiect ni? A ydym ni wedi bod yn dryloyw ac yn glir ynghylch pwy sy'n elwa ar y gwaith hwn? Sut mae'r prosiect hwn yn adlewyrchu'r dyfodol y mae'r sefydliad yn awyddus i'w weld?

**Strwythurol** — taflu goleuni ar yr effaith bendant

Lle mae'r cyfleoedd ar gyfer newidiadau ystyrlon? Sut y caiff ein gwerthoedd eu hadlewyrchu yn ein prosesau? Pa effaith allai'r prosiect hwn ei chael ar ein cymunedau? Pa bolisïau allai newid er mwyn adlewyrchu'r gwaith hwn?

# Taflenni gwaith ar ymgysylltu cynhyrchiol



## Rhoi'r canllawiau hyn ar waith

Bydd gofynion cyfathrebu pob prosiect yn wahanol. Nid proses sefydlog yw hon ond dylai'r syniadau a'r egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau hyn ei gwneud yn haws i ddatblygu a chyfathrebu'ch negeseuon allweddol i wahanol gynulleidfaoedd.

Gobeithio y bydd y ddogfen hon yn help i'ch gwneud yn fwy hyderus wrth bleidio dad-drefedigaethu, yn eich sefydliad chi a thrwy'r sector cyfan.

Mae dad-drefedigaethu'n golygu agor ein gofodau a'n casgliadau i bersbectif hanesyddol ehangach sy'n ymgysylltu â chynulleidfa ehangach. Mae amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth yn cynnwys tystiolaeth ddiriaethol o'n gorffennol trefedigaethol ac felly maent mewn sefyllfa ddelfrydol i archwilio gwaddol yr agweddau hynny ar hanes. Gall y gwaith hwn amlygu naratifau newydd ynghylch ein ffordd o feddwl amdanom ein hunain fel cymdeithas – straeon sy'n pwysleisio bod gan bawb hawl i lais, i fynegi eu safbwynt, ac i ddeall eu lle mewn hanes. Nid oes dim yn cael ei golli ond, yn hytrach, mae gwaith dad-drefedigaethu'n ychwanegu dyfnder, cyfoeth a gwell dealltwriaeth i'n treftadaeth ddiwylliannol dorfol.

## Defnyddiau darllen


David Olusoga
**Black and British: A forgotten History**
(Llundain: Picador 2021)

Corinne Fowler
**Green Unpleasant Land: Creative Responses to Rural Britain's Colonial Connections**
(Leeds: Peepal Tree Press, 2020)

Alice Procter
**The Whole Picture: the colonial story of the art in our museums and why we need to talk about it**
(Llundain: Cassell, 2021)

**Llun y clawr:** Cynrychiolwyr pobl y Maasai yn cydweithio ag Amgueddfa Pitt Rivers i ofalu am eitemau sydd o bwys ysbrydol iddynt. © Amgueddfa Pitt Rivers, Prifysgol Rhydychen, John Cairns

Museums Association

**Museums Association**
42 Clerkenwell Close
London EC1R 0AZ
T: 020 7566 7800
www.museumsassociation.org